



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Strategaeth Bwyd Cymunedol Arolwg Defnyddwyr

Rhagfyr 2021

Dull


- Comisiynwyd y gwaith hwn gan Lywodraeth Cymru oddi wrth Four Cymru
- Arolwg ar-lein wedi'i gynig yn ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg) i drigolion sy'n hanu o Gymru
- Wedi defnyddio panel Cint i gyflawni canlyniadau
- Nifer o holiaduron wedi'u cwblhau : 1,018
- Dadansoddiad llinell uchaf: 15 Rhagfyr 2021
- Dadansoddiad llawn ac argymhellion: 20 Rhagfyr 2021




Canlyniad yr arolwg

Rhaniad o ran rhywedd

C1. Ydych chi'n disgrifio eich hun fel...



1,015 ymatebwyr




Benywod oedd rhan fwyaf yr ymatebwyr ac yna gwrywod.
Nododd nifer fach o ymatebwyr eu bod yn disgrifio eu hunain fel 'arall'.

Rhaniad o ran oedran

C2. Faint yw eich oedran?


1,015 ymatebwr



Ni welwyd unrhyw wahaniaethau meintiol mawr ymhlith y grwpiau oedran a ymatebodd. Y grŵp oedran 35-54 oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (36%) ac yna'r grŵp oedran 55+ (35%). Y grŵp oedran 16-34 oedd â'r nifer lleiaf o ymatebwyr (29%), sy'n arwydd y gallai pobl dros 35 oed fod ychydig yn fwy parod i dderbyn mentrau sy'n ymwneud â bwyd a diod o Gymru.

Rhaniad o ran lleoliad


C3. Ble ydych chi'n byw?



Y tair ardal â'r nifer mwyaf o ymatebwyr yw 1. Castell-nedd, Port Talbot, Abertawe; 2. Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam; 3. Caerdydd, Bro Morgannwg

Rhaniad oedran yn ôl lleoliad

C3. Ble ydych chi'n byw?



Roedd y profil oedran yn amrywio fesul rhanbarth, ond roedd y nifer fwyaf o'r grwpiau oedran 35-54 a 55+ yn dod o Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, ac roedd y nifer fwyaf o gyfranogwyr 16-34 yn dod o Gastell-nedd Port Talbot, Abertawe.


Ymwybyddiaeth o sefydliadau bwyd cymunedol

C4. Pa un o'r canlynol ydych chi'n meddwl sy'n rhan o fwyd cymunedol?

992 ymatebwr - ticiodd sawl ymatebwr fwy nag un ateb

Banciau bwyd/oergelloedd cymunedol/rhoddion bwyd oedd y mathau mwyaf adnabyddadwy o 'rannau' cymunedol bwyd, a bwyd a siopau lleol oedd yr ail fwyaf adnabyddadwy.

Rhandiroedd a gafodd y nifer lleiaf o ymatebion 'le', er mai dim ond gwahaniaeth bach oedd rhwng rhandiroedd a gerddi cymunedol.



Gwnaeth nifer fach o unigolion awgrymiadau eraill drwy sôn am brosiectau penodol

C4. Pa un o'r canlynol ydych chi'n meddwl sy'n rhan o Fwyd Cymunedol (arall)?



Nid oedd 98% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o unrhyw brosiectau bwyd cymunedol eraill. Cafwyd ateb gan 18 o unigolion ar wahân i “ddim yn berthnasol” - soniodd y mwyafrif am farchnadoedd ffermwyr, a soniwyd hefyd am roddion bwyd gan archfarchnadoedd a chinio ysgol am ddim.

18 ymatebwr


Ar gyfer pob rhanbarth, Banciau bwyd/Oergelloedd cymunedol/Rhoddion oedd fwyaf adnabyddus

Ardal	Rhandiroedd	Banciau bwyd/Oergelloedd cymunedol/Rhoddion bwyd	Gerddi cymunedol	Bwyd lleol mewn siopau lleol
Castell-nedd Port Talbot, Abertawe	69	130	80	95
Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam	66	115	83	90
Caerdydd, Bro Morgannwg	64	108	67	77
Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen	68	102	67	71
Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf	63	93	59	70
Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro	46	80	55	77
Conwy, Gwynedd, Sir Fôn	39	71	45	50
Powys	22	31	23	26
Arall	5	17	5	13

Ymwybyddiaeth o fentrau bwyd cymunedol

C5. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw fentrau 'bwyd cymunedol' yn eich ardal leol? Rhowch fanylion os yn hysbys e.e. Rhandoedd Castle Acre, Y Mwmbwls, Abertawe


1,015 ymatebwr



Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr yn ymwybodol o fentrau bwyd cymunedol


Rhoddodd 30% o ymatebwyr benywaidd ateb cadarnhaol, felly nhw yw'r rhywedd fwyaf ymwybodol

C5. 'Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw fentrau 'bwyd cymunedol' yn eich ardal leol?' Y rhai atebodd 'ydw' wedi'u rhannu yn ôl rhywedd a grŵp oedran



Y grwpiau demograffig a roddodd y nifer fwyaf o atebion cadarnhaol oedd merched 35-54 oed ac 16-34 oed. Ymatebwyr gwrywaidd 16-34 oed oedd y grŵp mwyaf anymwybodol ynghylch prosiectau bwyd cymunedol lleol

Ar gyfartaledd roedd 76% o'r rhai atebodd yn anymwybodol o unrhyw gynlluniau ond roedd hyn mor uchel â 84% yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam



Ymwybyddiaeth o fentrau bwyd cymunedol

C5. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw fentrau 'bwyd cymunedol' yn eich ardal leol? Rhowch fanylion os yn hysbys e.e. Rhandiroedd Castle Acre, y Mwmbwls, Abertawe

O'r rhai atebodd Ydw (27%) - roedden nhw'n ymwybodol o'r canlynol:

- Banciau bwyd 38%
- Prosiectau cymunedol 23%
- Rhandiroedd 12%
- Dim byd penodol 7%
- Ddim yn gwybod/dim sylw 20%



C5. Roedd y menywod oedd yn fwy ymwybodol o fentrau bwyd cymunedol hefyd yn gallu enwi mwy o esiamplau na dynion.


Roedd y mathau o brosiectau'n amrywio o archfarchnadoedd yn cymryd rhoddion, banciau bwyd lleol a rhandiroedd penodol i brosiectau a grwpiau penodol. Cafodd sawl cynllun ei enwi fwy nag unwaith. Ceir ciplun isod:

Rhandiroedd yn Nhre-gŵyr a Gorseinon. Banc bwyd yng Ngorseinon. 5 canolfan banc bwyd yn Sir Benfro. Cegin gymunedol yn Abertawe. Alive Church. Rhandiroedd - Rhiwabon, Wrecsam, Holt ac ati, Incredible Edible yn Wrecsam, a'r oergell gymunedol ym Mharc Caia. Rhandiroedd Sir Ddinbych a Fairbanks Sir Ddinbych. Rhandiroedd yn hen Gae'r Vetch. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn rhedeg cynllun parcel bwyd Nadolig. Mae gan Lidl focs wrth ymyl y tiliau lle maen nhw'n derbyn rhoddion ar gyfer banciau bwyd lleol. Yn y Cyfran Deg lleol maen nhw'n darparu ffrwythau a llysiau a dyfwyd yn lleol i chi. Banc bwyd Llandysul. Banc bwyd Wrecsam. Banc Bwyd Beddau, Banc Bwyd Tonteg. Rhandiroedd banc bwyd Betws, Birchgrove ac Allensbank. Banc bwyd ym Mhont-y-clun. Paradise Run. Banc bwyd Aberhonddu. Banc bwyd. Banc Bwyd Caerdydd. Rhandiroedd Castle Acre, Gerddi Cymunedol Southend; Cigyddion lleol; Marchnadoedd Ffermwyr y Mwmbwls. CBSA- Llanelli. Ymddiriedolaeth Russell. Cylchreddeg. Banc bwyd cymunedol, Canolfan Gymunedol Glyn Ceiriog. Oergell gymunedol a bagiau bwyd yn Morrisons. Oergell gymunedol ac ati, gerddi tyfu yn cael eu datblygu, Spar yn gwneud bwydydd hen ffasiwn. Oergell gymunedol yn Abergwaun, Banc bwyd yn Abergwaun. OERGELL GYMUNEDOL YN ABERTAWE. BANC BWYD BLAENYMAES. Rhandiroedd Castle. OERGELL GYMUNEDOL, Y DRENEWYDD. Oergell gymunedol, Y Drenewydd, Powys. Cultivate, Y Drenewydd. Gardd gymunedol ar Ffordd Corpa. Pantri cymunedol yng Nghefn cribwr a CAD yng ngogledd Corneli. Hefyd cyfleusterau banc bwyd yn y sir. Co-op. Banc bwyd Croesyceiliog. Amaethu. Cwtch Up. Cyfran Deg. Marchnad ffermwyr yn y Butcher's Arms. Canolfan y Fforest ar Ffordd Caerfyrddin. Fferm gymunedol Fforestfach. Dosbarthodd Cyngor Sir y Fflint barseili i bensynwyr yn ystod y cyfnodau clo. Banc bwyd Sir y Fflint. Banc bwyd yn Gilfach Goch a Thonyrefail. Banc bwyd Caernarfon. Banc bwyd Aberteifi. Oergell gymunedol, Abergwaun. Banc bwyd wedi ei gasglu yn Eglwys Pontlotyn. Banc bwyd wedi ei gasglu yn Tesco Glyn Ebwy. Banc bwyd Eglwys Ebenezer. Banc bwyd Abergwaun. Banc bwyd Glyn Ceiriog. Banc bwyd Cydweli. Banc bwyd yn yr Wyddgrug. Banc bwyd yn nhref Casnewydd ac un ar Ffordd Malpas. Banc bwyd ym Mhen-bre. Banc bwyd ym Mhontarddulais a chegin gawl yn Abertawe. Rhandiroedd yn Abertawe. Banc Bwyd a redir gan eglwys leol. Banc bwyd prosiect y Goleudy. Banciau bwyd ar draws y sir; atgyfeiriadau at fanciau bwyd gan Gyngor ar Bopeth Sir Benfro. Banciau Bwyd Caerdydd. Cwmni bwyd. Bwyd i Deuluoedd mewn Angen, yn gweithredu oddi ar roddion bwyd. Pantri Bwyd. Rhannu Bwyd. Banc Bwyd yn Rhydaman. Banc bwyd ym mharc Sgeti. Gardd gymunedol. Banc bwyd Gilfach goch. Banc bwyd Gilfach goch. Menter fwyd Canolfan Gymunedol Gilfach Goch. Gerddi Byd-eang, Y Mynydd Bychan; Canolfan Oasis, Sblot; Rhandir StarGar, Rhandiroedd Pengam; cegin gawl yng nghanol y ddinas, darpariaeth bwyd mewn llochesi digartref, marchnadoedd ffermwyr. Goo. Banc bwyd Gorseinon. Gerddi Stad yr Hafod. Hyb cymunedol Penparcau. Jesus Cares. Rhandiroedd Johnstown - Banciau Bwyd. Gwybod am y rhandiroedd yn Castle Acre. Tyfwyr bwyd Llandrindod. Rhandir gymunedol Llanfairfechan. Rhandiroedd Llanharan. Llaeth y Llan. Llefydd i bobl ddigartref. Banc bwyd Llwynhendy a Tyisha. Banc bwyd lleol y Rhyl. Roedd gan grŵp lleol arian gan Co-op yn y newyddion ddoe ond ni allaf gofio'r enw. Mae cynnyrch lleol, gan gynnwys cwrw a seidr wedi'i fragu'n lleol, ar gael yn siop Co-Op Bwcle. Mach Maethlon. Felly mae'n bert. Matt's House. Gerddi Mencap. Rhandiroedd Moelyci a siop fferm. Banc bwyd Trefynwy. Banc bwyd Myrtle House. Need to Feed. Banc bwyd Casnewydd. Casnewydd yn ei blodau. Mae gan Hyb Cyn-filwyr Casnewydd randir yn Ringland. Rhandiroedd Castell-nedd Port Talbot. PATCH. Pengam stargaralot. Banc Bwyd Pentre-baen. Siopau llysiau, Castellnewydd Emlyn. Rhandiroedd Rhaeadr. Rhandiroedd Rogerstone. Byddin yr Iachawdwriaeth Treforys a Llanelli a Sgiwen. Sawl rhandir o amgylch y Barri. Banc bwyd Sant Ioan, banc bwyd mewn archfarchnadoedd lleol. Rhandiroedd St Peters. Summit yn dda. Gardd Gymunedol Dinas Abertawe. Banc bwyd Taf-elái. Banc bwyd Tairgwaith. Cwsmeriaid Tesco yn rhoi eitemau bwyd. mae Tesco yn Neganwy wrthi'n gweithio gyda banciau bwyd. Bwyd a roddwyd a fyddai fel arall yn cael ei wastraffu. Yr ardd gymunedol yn Abertawe lle roedd Cae'r Vetch yn arfer bod. Mae nifer o fanciau bwyd, prosiect rhannu prisiau ac mae Olio yn weithredol yn ardal Aberdâr hefyd. Mae rhai rhandiroedd yn Llandrillo-yn-Rhos, ger Gwarchodfa Natur Bryn Euryn. Mae Tesco yn rhan o Ymddiriedolaeth Trussell ac mae ganddo le yn y siop i gwsmeriaid roi bwyd. Gardd bwyd cymunedol. Yn Mayhill Judy oddi ar North hill road. Mae blwch rhoddion yn fy Co-op lleol. Tin ar y wal. Tir-y-berth. Rhandiroedd Tonypany. Too good to go. Tŷ hapus. Banc bwyd Tyshia, Banc bwyd Porth Tywyn, Banc bwyd Pen-bre. Eglwys Winston Road. Ie, yn lleol ar Ynys Môn. Canolfan yr Urdd ac ysgolion lleol. Mae eglwys Ystrad Mynach yn cynnig nwyddau fforddiadwy lle gallwch lenwi bag am £2.50.

Ymwneud â mentrau bwyd cymunedol

1,015 ymatebwr


C6. Ar hyn o bryd, ydych chi'n ymwneud ag unrhyw fentrau/gweithgareddau 'bwyd cymunedol'?



Nid oedd 87% o'r ymatebwyr yn ymwneud ag unrhyw fentrau bwyd cymunedol lleol

Mae 12% o bob ymatebwr benywaidd a 14% o bob ymatebwr gwrywaidd yn ymwneud â mentrau bwyd cymunedol

C6. 'Ar hyn o bryd, ydych chi'n ymwneud ag unrhyw fentrau/gweithgareddau 'bwyd cymunedol'?' Y rhai a atebodd 'ydw' wedi'u rhannu yn ôl rhywedd a grŵp oedran




Y grŵp oedran mwyaf cyfranogol oedd Benywod 35-54 ac yna Benywod 16-34. Benywod 55+ a ddangosodd y lefel isaf o gyfranogiad mewn prosiectau bwyd cymunedol

Banciau bwyd oedd â'r lefel uchaf o gyfranogi

C7. Os ateboch 'ydw' ar gyfer C6, ym mha weithgareddau ydych chi'n cymryd rhan?

Rhoddodd 127 ymatebwr ateb dilys i'r cwestiwn hwn:

- Soniodd 36% am fanciau bwyd
- Soniodd 9% am roddion gan archfarchnadoedd (ni chrybwyllwyd unrhyw archfarchnad benodol yn amlach nag eraill ac roedd y rhai a grybwyllwyd yn cynnwys Tesco, ALDI, Waitrose ac ASDA)
- Soniodd 7% am randiroedd
- Soniwyd am eiriau sy'n berthnasol i 'roddion' mewn 33% o'r atebion, sy'n golygu mai dyma'r ffurf amlycaf o weithgaredd bwyd cymunedol. Yn y mwyafrif o achosion rhoddwyd rhoddion i fanciau bwyd
- Roedd 14% o'r atebion yn dangos ffafriaeth tuag at weithgareddau sy'n ymwneud â mudiadau bwyd cymunedol lleol



C7. I'r rhai sydd eisoes yn cymryd rhan mewn mentrau mae'r mwyafrif yn cyfrannu, tra bod eraill yn cymryd rhan fwy gweithredol mewn cynlluniau neu'n tyfu eu bwyd eu hunain. Ceir ciplun isod:

Rwy'n mynd i'r Waitrose ac ALDI lleol ac yn mynd â bwyd i'r banc bwyd. Goruchwyliwr ar gyfer un o'r canolfannau banc bwyd yn Sir Benfro. Fel clericwr rydw i wedi bod yn ymwneud â banciau bwyd. Banciau bwyd. Prynu o farchnad ffermwyr. Banc bwyd yr eglwys. Rhandir gymunedol. Cwpwrdd bwyd cymunedol - arbed o safleoedd tirlenwi. Coginio i'r digartref. Dosbarthu. Rhoi bwyd i'r banc bwyd. cyfrannu bwyd i fanciau bwyd. Tyfu ein llysiau ein hunain a'u rhannu pan fyddant yn aeddfed gyda chymdogion. Cyfrannu mewn archfarchnadoedd. Cyfrannu eitemau. Rhoi i'r banc bwyd. Cyfrannu i'r banc bwyd. Cyfrannu i gasgliadau banc bwyd. Cyfrannu i'r banc bwyd lleol. Cyfrannu i'r banc bwyd lleol. Rhoi bwyd i Tesco, coginio cacennau, gwneud brechdanau ar gyfer boreau coffi lle mae croeso i bawb. Marchnadoedd ffermwyr, banciau bwyd, siopau bwyd lleol. Banc bwyd. Banc bwyd Caernarfon. Rhoddion i'r banc bwyd. Blog bwyd ar gyfer cynaliadwyedd. Rhoddion bwyd. Lloches bwyd yn tesco. Garddio. Rhoi i gylch chwarae sy'n rhoi arian i fanc bwyd lleol. Rhoi i fanciau bwyd. Tyfu bwyd a rhoi i Fanc Bwyd (Pant). Coginio a thyfu bwyd ar gyfer Marchnadoedd Gwledig a digwyddiadau cymunedol eraill. Defnyddio bwyd rydyn ni wedi'i dyfu i ddiolch i bobl neu i gyfnewid am eitemau. Gŵyl y cynhaeaf. Wedi cyfrannu bwyd trwy ddigwyddiadau yn yr eglwys leol. Helpu gyda banciau bwyd. Rwy'n rhoi. Rwy'n rhoi bwyd yn Tesco ar gyfer y banc bwyd. Rwy'n rhoi bwyd mewn archfarchnadoedd. Rwy'n rhoi bwyd i'r banc bwyd. Rwy'n rhoi i fanciau bwyd lleol mewn archfarchnad. Rwy'n rhoi bwyd diangen i'r digartref. Mae gen i randir. Rwy'n helpu ac yn rhoi cymaint ag y gallaf. Weithiau byddaf yn rhoi i fanciau bwyd. Gwella'r amgylchedd lleol. Casgliad lleol o fwyd. Ôl troed. Codi ymwybyddiaeth o ganser, a chael rhoddion. Rhoi bwyd yn rheolaidd. Rhandir yr ysgol. Siopa i eraill. Caniau / bwyd mewn digwyddiadau yn y pentref fel boreau coffi. Gwirfoddoli yn y Banc Bwyd. Rydyn ni wedi rhoi bwyd iddyn nhw.

Diffyg gwybodaeth oedd y prif rwystr rhag cymryd rhan mewn mentrau bwyd cymunedol

C8. Os ateboch 'nac ydw' i C6, beth sy'n eich atal rhag cymryd rhan?




Ni roddodd 45% o'r cyfranogwyr ateb, er inni gael 560 ymateb:

- Soniodd 43% am ddiffyg gwybodaeth fel y rhwystr allweddol i gymryd rhan mewn mentrau bwyd cymunedol (dywedodd y mwyafrif nad oedden nhw'n ymwybodol o unrhyw fentrau, a dywedodd nifer hefyd nad oedden nhw'n ymwybodol o sut i gymryd rhan)
- Dywedodd 17% fod diffyg amser yn rhwystr allweddol sy'n eu hatal rhag cymryd rhan
- Soniodd 6% am faterion iechyd, anabledd a henaint

Mae bod yn rhan o gymuned yn allweddol, ond mae'r amgylchedd a buddion iechyd (meddyliol a chorfforol) yn chwarae rhan bwysig


821 ymatebwr

C9. Beth yw/allai fod yn brif fuddion cymryd rhan mewn gweithgareddau 'bwyd cymunedol'?



Bod yn rhan o'r gymuned oedd prif gymhelliant dynion a menywod


C9. 'Beth yw/allai fod yn brif fuddion cymryd rhan mewn gweithgareddau 'bwyd cymunedol'?' wedi'u rhannu yn ôl rhywedd



Roedd buddion iechyd meddwl yn bwysicach i fenywod nag i ddynion, gan fod 48% o'r holl ymatebwyr benywaidd wedi ticio'r budd hwnnw ond dim ond 39% o'r holl ymatebwyr gwrywaidd a roddodd dic iddo
Roedd gwella'r amgylchedd lleol yn gymhelliant allweddol arall i'r ddau rywedd

Bod yn rhan o'r gymuned oedd y prif gymhelliant ar gyfer pob grŵp oedran hefyd

C9. 'Beth yw/allai fod yn brif fuddion cymryd rhan mewn gweithgareddau 'bwyd cymunedol'?' (wedi'u rhannu yn ôl grwpiau oedran)



Y grŵp oedran a ddangosodd y lefel uchaf o awydd i fod yn rhan o'r gymuned oedd y grŵp 35-54

Roedd gwella'r amgylchedd lleol hefyd ymhlith y pwysicaf ar gyfer pob grŵp oedran, ond yn yr achos hwn roedd y grŵp 35-54 yn dangos mwy o ddiddordeb ynddo.


Roedd buddion iechyd meddwl ymhlith y prif gymhellion ar gyfer grwpiau oedran 35-54 ac 16-34, ond nid ar gyfer grŵp oedran 55+


Nifer o bethau tebyg rhwng dynion/menywod 16-54, ond rhai newidiadau yn y grŵp 55+ pan fo'r agwedd gymdeithasol yn cynyddu

C9. 'Beth yw/allai fod y prif fuddion o gymryd rhan mewn gweithgareddau 'bwyd cymunedol'?' (wedi'u rhannu yn ôl rhywedd a grŵp oedran)

		Bod yn rhan o'r gymuned	Buddion iechyd meddwl	Gwella'r amgylchedd lleol	Cyfleoedd i gymdeithasu	Buddio iechyd corfforol	Addysgiadol
Benywaidd	35-54	164	116	114	107	93	65
	16-34	147	119	117	99	79	86
	55+	87	61	60	71	53	26
Gwrywaidd	35-54	85	66	68	66	54	36
	16-34	27	26	24	17	23	13
	55+	90	57	79	62	62	32
Arall	16-34	3	1	3	3	3	3

 Mwyaf poblogaidd

 2^{il} fwyaf poblogaidd


 3^{ydd} mwyaf poblogaidd

Cymuned oedd y prif gymhelliant i gymryd rhan mewn gweithgareddau ‘bwyd cymunedol’

C9. Beth yw/allai fod yn brif fuddion cymryd rhan mewn gweithgareddau ‘bwyd cymunedol’? (Arall)


Dyweddodd **98%** nad oedden nhw’n ymwybodol o unrhyw fanteision eraill o gymryd rhan mewn mentrau bwyd cymunedol

O’r **21 ateb** a roddwyd nad oedd yn datgan anymwybyddiaeth, dywedodd y mwyafrif y bydden nhw’n cymryd rhan i helpu eraill a’u cymuned ehangach, gan bwysleisio ymhellach bwysigrwydd ‘lleol’ a ‘chymunedol’ fel cymhellion allweddol.



Nid yw'n syndod mai archfarchnadoedd yw'r dewis mwyaf poblogaidd, ond mae siopau lleol yn dal i chwarae rhan bwysig

C10. Ble ydych chi'n prynu eich cynnyrch ffres ar hyn o bryd?



Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn tyfu eu bwyd eu hunain yn yr ‘adran arall’

C10. Ble ydych chi'n prynu eich cynnyrch ffres ar hyn o bryd? (Arall)




Rhoddodd mwyafrif y cyfranogwyr ateb ynghylch a oedden nhw'n gwybod am ddarparwyr cynnyrch ffres eraill

Dywedodd **97%** o'r ymatebwyr nad oedden nhw'n ymwybodol o ddarparwyr eraill. O'r **27** ateb a roddwyd na ddatganodd anymwybyddiaeth:

- Ymatebodd 52% eu bod yn tyfu eu bwyd eu hunain
- Dywedodd 26% eu bod yn prynu eu bwyd ffres o siopau


Mae pris ac argaeledd yn rhwystrau i brynu'n lleol, yn ogystal â diffyg ymwybyddiaeth

C11. A oes unrhyw beth sy'n eich rhwystro rhag prynu cynnyrch wedi'i dyfu'n lleol?



Pris oedd y prif rwystr i fenywod


C11. 'A oes unrhyw beth sy'n eich rhwystro rhag prynu cynnyrch wedi'i dyfu'n lleol?' wedi'u rhannu yn ôl rhywedd



Roedd pris ac argaeledd yn debyg iawn i'r ymatebwyr Gwrywaidd fel canran o ymatebwyr

Argaeledd oedd y prif rwystr i'r grŵp oedran 55+


C11. 'A oes unrhyw beth sy'n eich rhwystro rhag prynu cynnyrch wedi'i dyfu'n lleol?' wedi'u rhannu yn ôl grŵp oedran



Er mai pris oedd y rhwystr allweddol ar gyfer y grwpiau oedran 35-54 a 16-34, 55+ oedd y grŵp oedran a oedd fwyaf tebygol o dyfu eu cynnyrch ffres eu hunain.

Atebodd mwyafrif y cyfranogwyr y dylai mwy o fwyd lleol gael ei gynhyrchu yn y gymuned

C12. Ydych chi'n meddwl y dylai mwy o fwyd lleol gael ei gynhyrchu yn y gymuned i'w fwyta gan y gymuned?



837 ymatebwr

Atebodd 18% 'ddim yn gwybod' ac atebodd 5% 'na'

Atebodd mwyafrif y cyfranogwyr y dylai mwy o fwyd lleol gael ei gynhyrchu

C12. Ydych chi'n meddwl y dylai mwy o fwyd lleol gael ei gynhyrchu yn y gymuned i'w fwyta gan y gymuned?

Atebodd 77% ydw, defnyddiodd 50% y geiriau allweddol canlynol:

- | | |
|----------------------------|-----|
| • Sylwadau unigol | 42% |
| • Da i'r amgylchedd/iechyd | 18% |
| • Da i'r gymuned | 17% |
| • Ôl troed carbon | 14% |
| • Buddion eraill | 9% |

Mathau o sylwadau

- Da i'r amgylchedd lleol ac yn helpu pobl i ddeall o ble mae eu bwyd yn dod
- Mae mwy o gynnyrch lleol yn well ar gyfer milltiroedd bwyd ac ati.
- Da i'r economi leol
- Dylai fod gan y rhan fwyaf o gymunedau randir ar gyfer tyfu a bwyta eu bwyd eu hunain gan y byddai'n helpu gydag unigrwydd ac iechyd meddwl
- Byddai'n helpu i greu cwlwm yn y gymuned ar draws pob oedran

C12. Roedd cefnogi'r gymuned leol, helpu'r rhai mewn angen a meithrin cydlyniant cymdeithasol yn ffactorau allweddol, gyda'r effaith amgylcheddol o brynu a thyfu'n lleol yn dilyn yn agos. Roedd diddordeb mawr mewn addysgu ac annog mwy o bobl i dyfu bwyd eu hunain. Ymhlith y sylwadau roedd:

Ar hyn o bryd nid wyf yn ymwybodol y bydd y banc bwyd yn cymryd bwyd ffres. Achos rwy'n rhoi arian i bobl leol. Oherwydd bydd yn helpu cynhesu byd-eang a chadw ffermydd yn fyw. Oherwydd pan na ellir danfon bwyd i siopau mae gennym ni beth wrth gefn. Llawer mwy o fuddion. Diogelwch bwyd. Ni ddylai prinder bwyd fod yn digwydd. Mae cyflenwadau'n cael eu gwastraffu os na chânt eu cludo neu mae tywydd gwael yn difetha cnydau. Llyisiau ffres dim ond o farchnad ond mae'n mynd yn ormod i bobl. Da i'ch economi leol eich hun. Syniad da. Helpu i ddod â mwy o arian i'r gymuned leol a gwella cymunedau drwy gynnig cyfleoedd i gymdeithasu. Help gyda straen a phryder ac ati. Helpu'r gymuned, yr amgylchedd, helpu ein ffermwyr lleol, cynnyrch ffres iawn, blasu'n well, llawer iachach, llai o gyffwrdd â'r cynnyrch. Rwy'n tyfu bwyd fy hun, i gynhyrchwyr mêl lleol. Rwy'n meddwl os bydd pobl yn tyfu bwyd eu hunain ac yn cymryd rhan mewn prosiect cymunedol yna byddan nhw'n cael mwy allan o'u bwyd. Hoffwn pe bai brandiau mawr fel Tesco ac eraill yn gwneud mwy o le i fwyd a nwyddau a gynhyrchir yn lleol. Byddwn i wrth fy modd yn prynu'n uniongyrchol o ffermydd lleol. Os caiff ei dyfu'n lleol beth am ei ddefnyddio'n lleol. Pe bai mwy o deuluoedd incwm isel a minnau'n cael fy nghyflogi yn cael ein dysgu i dyfu bwyd ar randir gymunedol byddai llai o alw am fanciau bwyd. Dydw i ddim yn ymwybodol o werthiant cynnyrch lleol. Mae'n dda i'r amgylchedd nad yw bwyd yn cael ei gludo i mewn ac mae'n sicrhau bwyd ffres i'r gymuned. Ni chaniateir gwerthu cynnyrch o randiroedd (dwi'n cytuno y byddai rhai yn elwa) eto fe allai hynny newid i ganiatáu iddynt, fel grŵp, godi arian i gael hadau drwy werthu rhywfaint o gynnyrch. Pan gefais fy rhandir rhoddais stwff i'r banc bwyd lleol ac roedd eraill roeddwn i'n gwybod oedd angen stwff ffres. Mae'r rhandiroedd yn cael eu rhedeg yn wael a llawer o leoedd heb eu llenwi er bod rhestrau aros; nid yw'r rhandiroedd yn gymuned ac nid oes ganddynt lawer o gysylltiad â'r ardal leol. Gallai ac fe ddylai hyn newid. Bydd yn gwella undod ac undod cymunedol lleol. Byddai'n dda i'r economi leol. Byddai'n dod â chymunedau at ei gilydd ac yn gost effeithiol. Byddai'n rhoi arian i gynhyrchwyr lleol allu creu mwy o swyddi a darparu mwy o fwyd. Byddai'n helpu'r gymuned leol. Byddai'n arbed ar allyriadau carbon oherwydd mae'n llai o amser teithio. Mae'n helpu eich cymuned. Lleihau milltiroedd awyr a gwella ansawdd y bwyd. Mwy o randiroedd. Yn fwy iach. Byddai mwy o bobl yn cymryd rhan. Mwy cynaliadwy, ecogyfeillgar, ôl troed carbon is. O bosib diffyg tir i bobl dyfu. Hybu ymdeimlad o gymuned. Lleihau milltiroedd bwyd. Yn lleihau "milltiroedd bwyd". Lleihau ôl troed carbon. Mae lleihau milltiroedd bwyd yn beth da a pho fwyaf o fwyd sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol, yr hawsaf yw hi i'w wneud. Cynaliadwy, cryfhau cymuned. Mwy blasus, teithio llai o filltiroedd a chefnogi busnesau lleol. Gwyrddach. Mae'r bwyd yn fwy cynaliadwy ac yn fwy ecogyfeillgar. Mae hyn yn gwneud ein bywyd yn fwy cyfleus. I gael mwy o bobl i gymryd rhan. I helpu'r gymuned. I leihau ôl troed carbon. I gefnogi eich cymuned leol. Mae angen mwy o le arnom i wneud mwy o randiroedd os nad oes gennym lawer o le. Dylem oll dyfu bwyd ein hunain. Rydym yn llawer rhy ddibynnol ar archfarchnadoedd (gan gynnwys fi). Mae'n rhy gyfleus (neu efallai fy mod yn rhy ddiog). Ie . Rydym wedi dod yn ddibynnol ar gynnyrch wedi'i fewnforio. Mynd yn ôl i'r pridd yw'r ffordd orau o gynnal iechyd. Mae unrhyw beth a dyfir gan berson yn fwy buddiol iddynt. Ffaith wedi'i phrofi'n wyddonol. Ie ond yn rhatach. Bydd tyfu'n lleol yn annog bywyd gwyllt lleol. Bydd argaeledd bwyd yn lleol yn lleihau ôl troed carbon. Bydd yn meithrin ysbryd/cymorth cymunedol ac yn helpu'r bobl sydd ei angen fwyaf. Byddai yn wir, byddai hyn yn helpu ein cymuned o ran arian ac yn helpu pobl i fwyta'n iachach. Ie byddai'n llawer haws i bobl gael gwerth. Ydy, mae'n syniad gwych cael pobl i ddod at ei gilydd a gofalu am ein hamgylchedd a ni ein hunain

Roedd codi mwy o ymwybyddiaeth ymhlith prif argymhellion datblygu mentrau bwyd cymunedol

C13. Beth fyddai eich argymhellion i ddatblygu mwy o fentrau/gweithgareddau 'bwyd cymunedol' yng Nghymru?

Mathau o sylwadau:

- Rhedeg cyfres o hysbysebion ar y teledu ac ar-lein yn siarad am brosiectau bwyd cymunedol yn gyffredinol a phwysleisio'r manteision er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth
- Darparu llinell gymorth/gwefan sy'n rhoi mwy o wybodaeth am brosiectau gweithredol mewn gwahanol feysydd. Hefyd, darparu maes sy'n rhoi gwybodaeth am sut i sefydlu gwahanol fathau o fentrau bwyd cymunedol a pha gymorth/cyllid a allai fod ar gael
- Hwyluso canolfan lle gall pobl sy'n rhedeg/yn ymwneud â phrosiectau bwyd cymunedol ddod at ei gilydd i rannu syniadau da ac arferion gorau
- Cyflenwi mwy o dir ar gyfer mentrau bwyd cymunedol a pheidio ag adeiladu cymaint o dai ar dir fferm da
- Mwy o hysbysebu am y bobl sy'n eu rhedeg, a sut y gallan nhw fod o fudd i ni
- Mwy o addysg ar y manteision
- Cael ysgolion i gymryd rhan
- Mae angen buddsoddiad i gychwyn unrhyw brosiect o'r fath

Crynodeb ac argymhellion

Crynodeb o'r canfyddiadau

Banciau bwyd/oergelloedd cymunedol a rhoddion oedd y mathau mwyaf adnabyddus o fentrau bwyd cymunedol, a bwyd lleol mewn siopau lleol oedd y lleiaf adnabyddadus.

Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr yn ymwybodol o fentrau bwyd cymunedol lleol.

O ganlyniad, nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cymryd rhan mewn unrhyw fentrau bwyd cymunedol

Cydnabuwyd diffyg ymwybyddiaeth o fentrau fel y rhwystr allweddol i gymryd rhan, ac yna diffyg amser

Bod yn rhan o gymuned a helpu ei haelodau oedd y prif gymhelliant posibl i gymryd rhan mewn gweithgareddau bwyd cymunedol, ac yna gwella'r amgylchedd lleol a buddion iechyd meddwl

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn prynu cynnyrch ffres o archfarchnadoedd yn bennaf

Y rhwystrau allweddol i brynu cynnyrch ffres wedi'i dyfu'n lleol oedd pris ac argaeledd, tra bod rhai ymatebwyr hefyd yn sôn bod ei brynu o'r archfarchnad yn fwy cyfleus o ran hygyrchedd a rheoli amser.



Crynodeb o'r canfyddiadau

Cytunodd 77% o'r ymatebwyr y dylid cynhyrchu mwy o fwyd cymunedol i'w fwyta gan y gymuned

Soniodd mwyafrif yr ymatebwyr hefyd am godi mwy o ymwybyddiaeth fel y dacteg allweddol sydd ei hangen i ddatblygu mwy o fentrau bwyd cymunedol yng Nghymru, tra bod rhai hefyd yn sôn am yr angen am fwy o le ar gyfer rhandiroedd.

Ar y cyfan, roedd menywod yn fwy ymwybodol ac yn fwy cyfranogol i fentrau 'bwyd cymunedol' - yn enwedig grwpiau benywaidd 35-54 ac 16-34

Y cymhellion allweddol i gymryd rhan mewn mentrau bwyd cymunedol ymhlith y grwpiau hyn oedd 'bod yn rhan o'r gymuned', 'buddiannau iechyd meddwl' yn ogystal â 'gwella'r amgylchedd lleol' - gyda rhyw lefel o gymdeithasoli yn ddymunol gan y grŵp 55+.

Pris ac argaeledd oedd y prif rwystrau i brynu cynnyrch wedi'i dyfu'n lleol ar gyfer yr holl grwpiau demograffig a gymerodd ran yn yr arolwg



Prif ganfyddiadau ac argymhellion

1. Lefel isel o ymwybyddiaeth ynghylch mentrau bwyd cymunedol

Cynnal ymgyrchoedd sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o fentrau bwyd cymunedol ac o 'dyfu bwyd eich hun' - ei gwneud hi'n hawdd cymryd rhan

2. Y prif gymhelliant dros gymryd rhan oedd 'bod yn rhan o'r gymuned'

Canolbwyntio'r neges yn bennaf ar gyfranogi a thwf cymunedol ond hefyd ar fuddion iechyd meddwl ac effaith amgylcheddol

3. Prisiau ac argaeledd ymhlith y prif rwystrau i brynu bwyd lleol

Tynnu sylw at fanteision talu pris ychydig yn uwch am effaith leol. Cyfathrebu ar lefel leol a chyfeirio at ble y gellir dod o hyd i gynnyrch lleol a'r ffyrdd hawsaf i'w gael.

4. Menywod yn fwy ymwybodol o fentrau bwyd cymunedol

Ei gwneud hi'n flaenoriaeth i gynnal diddordeb cynulleidfaoedd benywaidd drwy godi eu hymwybyddiaeth yn gyson am fentrau bwyd cymunedol. Canolbwyntio'r targedu ar yr ystod oedran 35-54 yn ogystal â 16-34

5. Dynion yn llai ymwybodol na menywod o fentrau bwyd cymunedol

Canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a diddordeb cynulleidfaoedd gwrywaidd - mae rhai cynlluniau eisoes yn rhedeg o amgylch tafarndai, clybiau chwaraeon, ac ati.

Diolch.